



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

Yr wythnos waith 4 diwrnod: gwybodaeth gan bartneriaeth gymdeithasol

Gweithgor Wythnos Waith 4 Diwrnod Cyngor Partneriaeth y
Gweithlu: Adroddiad ac Argymhellion.

Cyhoeddwyd gyntaf: 4 Ebrill 2024

Diweddarwyd ddiwethaf: 4 Ebrill 2024

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

[Crynodeb gweithredol](#)

[Cefndir](#)

[Cyfarfodydd y Gweithgorau](#)

[Cyfarfodydd yr Is-grwpiau](#)

[Casgliadau ac argymhellion](#)

[Atodiad 1](#)

[Atodiad 2](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).



CYNGOR PARTNERIAETH Y GWEITHLU WORKFORCE PARTNERSHIP COUNCIL

Crynodeb gweithredol

1. Ym mis Ebrill 2023, sefydlwyd Gweithgor dan nawdd Cyngor Partneriaeth y Gweithlu i ystyried materion sy'n ymwneud ag wythnos waith 4 diwrnod.
2. Mae'r Gweithgor yn ymateb partneriaeth gymdeithasol i alwadau am beilot o'r wythnos waith 4 diwrnod mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. Mae'r Gweithgor yn gyfrwng i archwilio'r goblygiadau ymarferol, y goblygiadau o ran pobl a'r goblygiadau o ran darparu gwasanaethau.
3. Fe wnaeth y Gweithgor gwrdd ar wyth achlysur a sefydlodd bedwar is-grŵp i fwrw ymlaen â ffrydiau gwaith penodol. Cafodd y Gweithgor gonsensws ar ei ddiffiniad o wythnos waith 4 diwrnod, gan gynnal cyfres o drafodaethau manwl a chasglu tystiolaeth gan ymarferwyr wythnos waith 4 diwrnod, academyddion a Llywodraeth yr Alban.
4. Daeth y Gweithgor i'r casgliad bod yr wythnos waith 4 diwrnod yn ffordd flaengar ac arloesol o weithio sy'n haeddu cael ei ystyried ymhellach. Ar sail y dystiolaeth a gafodd, ynghyd â'i drafodaethau ei hun, mae'r Gweithgor yn rhybuddio yn erbyn cynllun peilot o'r brig i lawr sy'n cael ei osod ar gyflogwyr a gweithwyr. Mae'r Gweithgor yn credu'n gryf bod rhaid i unrhyw gynllun peilot sy'n cael ei roi ar waith yn llwyddiannus fod yn seiliedig ar y canlynol:
 - i. presenoldeb cyflogwr neu gyflogwyr sy'n barod i dreialu'r wythnos waith 4 diwrnod; a bod:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

ii. y cyflogwyr hynny'n trafod, yn ymgynghori ac yn negodi gyda'u gweithlu a'u hundebau llafur, y gwaith o gynllunio, gweithredu a gwerthuso unrhyw gynllun peilot.

5. Prif argymhelliad y Gweithgor yw bod cyflogwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig, undebau llafur a Llywodraeth Cymru yn gweithio drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu, gyda'r nod o nodi sefydliad neu sefydliadau sy'n barod i dreialu'r wythnos waith 4 diwrnod, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn yr adroddiad hwn a natur amrywiol gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnwys gweithrediadau 24/7.

6. Mae'r Gweithgor yn ymwybodol bod unrhyw symudiadau i wythnos waith 4 diwrnod yn cael eu gwneud yn deg ac mewn ffyrdd sy'n osgoi creu gweithlu dwy haen lle nad yw pawb yn elwa ar wythnos waith 4 diwrnod yn yr un ffordd. Yn ogystal â'r casgliadau a'r argymhellion a nodir yn yr Adroddiad hwn, mae'r Gweithgor wedi datblygu set o egwyddorion y dylid eu hystyried wrth gynllunio a chyflwyno unrhyw gynllun peilot yn y dyfodol.

Cefndir

Gweithgor Wythnos Waith 4 Diwrnod

7. Cafodd y Gweithgor ar yr wythnos waith 4 diwrnod ei sefydlu ym mis Ebrill 2023 ac roedd yn dilyn trafodaeth a chytundeb yng nghyfarfod Cyd-bwyllgor Gweithredol Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ar 27 Ionawr 2023 ac yng nghyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ar 29 Mawrth 2023.

8. Mae gan y Gweithgor gylch gwaith eang a nodir yn ei Gylch Gorchwyl. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Ystyried cryfder y sail resymegol a'r sylfaen dystiolaeth sylfaenol ar gyfer

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

cynllun peilot 4 diwrnod yn y sector cyhoeddus datganoledig.

- Gwerthuso'r cyfleoedd, y risgiau a'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â chynllun peilot wythnos waith 4 diwrnod.
- Gwneud argymhellion ar ba mor ymarferol, addas a derbyniol yw cynllun peilot wythnos waith 4 diwrnod mewn gwasanaeth cyhoeddus datganoledig neu wasanaethau yng Nghymru.

9. Mae'r Gweithgor yn cael ei gadeirio gan Reg Kilpatrick (Llywodraeth Cymru) ac mae ganddo gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru; Unsain, GMB, ac undebau llafur PCS; cynghorau Powys, Sir y Fflint a Bro Morgannwg; Cyfoeth Naturiol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Pam sefydlwyd y Gweithgor

10. Roedd y galwadau am gynllun peilot o'r wythnos waith 4 diwrnod yn y sector cyhoeddus datganoledig yn sbardun allweddol ar gyfer ffurfio'r Gweithgor.

11. Dechreuodd hyn gyda **Dadl mewn Cyfarfod Llawn** ar yr wythnos waith 4 diwrnod a gynhaliwyd ym mis Medi 2021. Roedd cynnig yr wrthblaid (a drechwyd) yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cynllun peilot wythnos waith 4 diwrnod yng Nghymru; roedd gwelliant y Llywodraeth (a gariwyd) yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

“ Ystyried y cynnydd a wneir drwy gynlluniau peilot mewn gwledydd eraill ac archwilio'r gwersi y gall Cymru eu dysgu.” ”

12. Cafodd rhagor o alwadau am gynlluniau peilot eu gwneud mewn **adroddiad a gomisiynwyd ac a gyhoeddwyd** gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2022. Fe wnaeth hyn ennyn diddordeb y wasg a diddordeb gwleidyddol, er enghraifft **Cais peilot wythnos waith pedwar diwrnod ar gyfer gweithwyr Cymru** - BBC News.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

13. Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddodd Pwyllgor Deisebau'r Senedd **adroddiad ar yr wythnos waith 4 diwrnod** a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

“Datblygu cynllun peilot i leihau oriau gwaith o fewn y sector cyhoeddus datganoledig, heb leihau cyflogau gweithwyr. Dylai'r cynllun peilot hwn gael ei dargedu at rannau o'r sector cyhoeddus datganoledig lle mae'n fwy realistig disgwyl na fydd cynhyrchiant yn cael ei effeithio'n negyddol gan leihau oriau gwaith staff..... [a bod] ... asesiad cadarn a diduedd o'r cynllun peilot hwn yn cael ei gynnal.” ”

14. Cyfeiriwyd at y bwriad i ffurfio'r Gweithgor Wythnos Waith 4 diwrnod yn **ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru** i adroddiad y Pwyllgor Deisebau; ac wedi hynny, cyhoeddwyd sefydlu'r Gweithgor yn y **ddadl yn y cyfarfod llawn ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau** a gynhaliwyd ar 10 Mai 2023.

15. Mae'r Gweithgor yn fecanwaith ar gyfer delio â mater cymhleth, lle mae rhywfaint o ddisgwyliadau ar Lywodraeth Cymru i weithredu, ond lle mae modd herio'r dystiolaeth, mae'r goblygiadau'n ansicr, ac mae'r math o ddarpariaeth yn aneglur. Mae'r Gweithgor yn adlewyrchu dymuniad i ystyried y materion hyn mewn partneriaeth gymdeithasol.

Cyfarfodydd y Gweithgorau

16. Mae'r Gweithgor wedi cyfarfod wyth gwaith yn ystod 2023 ac eleni hyd yma. Cynhaliwyd y cyfarfodydd ar 26 Ebrill, 26 Mai, 6 Gorffennaf, 28 Medi, 14 Tachwedd, 15 Rhagfyr, 16 Ionawr, a 22 Chwefror. Mae pob cyfarfod wedi bod yn adeiladol ac yn gynhyrchiol.

17. Mae'r Gweithgor wedi hwyluso trafodaethau ac allbynnau sydd wedi hybu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

dealltwriaeth o'r wythnos waith 4 diwrnod a'r cyfleoedd, yr heriau, y risgiau a'r manteision yng nghyd-destun gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. Ceir crynodeb o bob cyfarfod a'i ganlyniadau allweddol isod.

Cyfarfod 26 Ebrill 2023

18. Roedd cyfarfod cyntaf y Gweithgor yn canolbwyntio ar gytuno ar ddull eang o weithio a thrafod a mireinio Cylch Gorchwyl y Gweithgor. Nododd y Gweithgor fod angen dod i ddealltwriaeth ar y cyd o'i ddiffiniad o wythnos waith 4 diwrnod a sefydlu ffrydiau gwaith i fframio a llywio rhaglen waith y Gweithgor.

19. Bu'r Gweithgor hefyd yn trafod 'Papur Trosolwg' a gynhyrchwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd y papur yn briffio'r Gweithgor ar y materion cymhleth a rhyng-gysylltiedig sy'n berthnasol i archwiliad y Gweithgor o'r wythnos waith 4 diwrnod. Roedd y papur hefyd yn crynhoi gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag wythnos waith 4 diwrnod ar lefel y DU ac yn rhyngwladol.

Cyfarfod 26 Mai 2023

20. Cynhaliodd y Gweithgor drafodaethau sylweddol ar ddiffinio'r wythnos waith 4 diwrnod a nodi a thrafod ffrydiau gwaith arfaethedig.

21. Bu'r Gweithgor yn trafod ac yn ystyried diffiniadau amgen o wythnos waith 4 diwrnod, gan sicrhau consensws ar ddiffiniad sy'n seiliedig ar y model sy'n cael ei alw'n '100-80-100', ond nid yn union yr un fath.

22. Mae'r model '100-80-100' yn dynodi sefyllfa lle mae gweithwyr yn derbyn cyflog o 100% am 80% o'u horiau cytundebol arferol, yn gyfnewid am ymrwymiad i gynnal cynhyrchiant o 100% o leiaf.

23. Roedd y Gweithgor yn teimlo bod angen addasu'r pwyslais ar gynhyrchiant

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

yn y model '100-80-100' traddodiadol i fodloni gofynion cynnil sefydliadau'r sector cyhoeddus. Yn benodol, teimlai y byddai 'darparu gwasanaethau' yn ddangosydd mwy priodol na 'chynhyrchiant'.

24. Cytunodd y Gweithgor ar y diffiniad isod i ddisgrifio wythnos waith 4 diwrnod:

“ Mae wythnos waith 4 diwrnod yn golygu peidio â lleihau cyflog na cholli buddion, ynghyd â gostyngiad o 20% i oriau arferol y contract, tra'n cynnal y lefelau presennol o ddarparu gwasanaethau.” ”

25. Cytunodd y Gweithgor y dylai ei raglen waith gael ei lunio'n seiliedig ar bedair ffrwd waith eang y cytunwyd arnynt. Dyma nhw:

- i. Goblygiadau i Weithwyr
- ii. Goblygiadau i Gyflogwyr a Darparu Gwasanaethau
- iii. Tegwch, Ecwiti a Chanfyddiad
- iv. Fframwaith Dylunio a Gwerthuso Cynllun Peilot.

Cyfarfod 6 Gorffennaf 2023

26. Cytunodd y Gweithgor y dylid sefydlu is-grwpiau i fwrw ymlaen â'r ffrydiau gwaith y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod mis Mai ac ystyried sut gallai ei ddull gweithredu ar gyfer wythnos waith 4 diwrnod gysylltu ag egwyddorion 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru'.

27. Cytunodd y Gweithgor ar gadeiryddion ar gyfer pob un o'r is-grwpiau a dull gweithredu ar gyfer eu haelodaeth. Cytunodd y Gweithgor y byddai cadeiryddion yr is-grwpiau yn cael eu tynnu o'r Gweithgor, fel y byddai llawer o aelodau'r is-grwpiau.

28. Roedd y Gweithgor hefyd yn cydnabod natur y dasg a byddai'r ymrwymiad

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

amser yn golygu bod angen i bob is-grŵp gael ei ategu gan aelodau o'r tu allan i'r Gweithgor. Roedd y Gweithgor o'r farn y byddai hyn hefyd yn helpu i ehangu'r ystod o syniadau, gwybodaeth a phrofiad sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn.

Cyfarfod 28 Medi 2023

29. Cafodd y Gweithgor yr wybodaeth ddiweddaraf gan bob un o'r is-grwpiau ac roedd yn pwysu a mesur y cynnydd. Cytunodd y Gweithgor fod hwn yn ddarn cymhleth o waith, gyda llawer o ryngddibyniaethau a'r potensial ar gyfer rhai canlyniadau anfwriadol – gan anwybyddu'r manteision posibl sylweddol.

30. Daeth y Gweithgor i'r casgliad bod angen mwy o amser i gwblhau ei waith a byddai'r Gweithgor a'i is-grwpiau yn parhau i gyfarfod yn ystod yr hydref ac yn chwarter cyntaf 2024.

Cyfarfod 14 Tachwedd 2023

31. Myfyriodd y Gweithgor ar y drafodaeth yng Nghyngor Partneriaeth y Gweithlu ar 8 Tachwedd a derbyniodd wybodaeth ar weithgareddau'r is-grwpiau.

32. Nododd y Gweithgor y llyfrgell dystiolaeth yr oedd swyddogion wedi'i chasglu. Fe wnaethant hefyd drafod ffyrdd y gellid crynhoi rhai o'r negeseuon allweddol. Cytunodd y Grŵp i ystyried a ellid defnyddio offeryn deallusrwydd artifisial at y diben hwn.

Cyfarfod 15 Rhagfyr 2023

33. Cafodd y Gweithgor dystiolaeth gan Dr David Frayne, a rannodd ei wybodaeth a'i brofiad fel Aelod Cyswllt o felin drafod Autonomy, fel cyfrannwr at 'Fap trywydd wythnos waith fyrrach Cymru' ar gyfer Comisiynydd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cenedlaethau'r Dyfodol, ac wrth gynnal ymchwil ansoddol ar gynllun peilot 4 diwrnod y sector preifat a gynhaliwyd yn y DU.

34. Trafododd y Gweithgor weithgarwch yr is-grwpiau. Bu hefyd yn trafod amserlenni a oedd yn arwain at gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ym mis Mawrth a'r dull gweithredu ar gyfer cyflwyno canfyddiadau'r Gweithgor.

Cyfarfod 16 Ionawr 2024

35. Derbyniodd y Gweithgor dystiolaeth gan Ruth Lewellyn, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cartrefi Cymoedd Merthyr. Rhoddodd Ruth gyflwyniad i'r Grŵp ar brofiad Cartrefi Cymoedd Merthyr o weithredu wythnos waith 4 diwrnod, y gwersi a ddysgwyd a'r canlyniadau.

36. Adolygodd y Gweithgor ei drafodaethau hyd yma a thrafododd ei gyfeiriad a'i ddull o lunio ei adroddiad terfynol.

Cyfarfod 22 Chwefror 2024

37. Yn ei gyfarfod olaf, fe wnaeth y Gweithgor gymryd tystiolaeth gan swyddogion Llywodraeth yr Alban (mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi cynllun peilot yn y sector cyhoeddus ar sail **treial presennol** o'r wythnos waith 4 diwrnod sy'n cael ei gynnal gan South of Scotland Enterprise Agency).

38. Bu'r Gweithgor hefyd yn trafod drafft o'i Adroddiad Terfynol a'i Argymhellion cyn eu cwblhau a'u cyflwyno i Gyngor Partneriaeth y Gweithlu ym mis Mawrth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cyfarfodydd yr Is-grwpiau

39. Sefydlodd y Gweithgor bedwar is-grŵp, pob un yn cael ei gadeirio gan aelod o'r Gweithgor fel a ganlyn:

- Goblygiadau i Weithwyr: Sharon Carney (Cyngor Sir y Fflint)
- Goblygiadau i Gyflogwyr a Darparu Gwasanaethau: Bethan Thomas (Unsain)
- Tegwch, Ecwiti a Chanfyddiad: Bethan Thomas (Unsain)
- Dylunio a Gwerthuso Cynllun Peilot: Amanda Jenkins (Ymddiriedolaeth GIG Felindre)

40. Roedd y Gweithgor yn bwriadu i'r is-grwpiau gyfarfod dros fisoedd yr haf i gynnal momentwm. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion gorau i gynnull yr is-grwpiau, roedd argaeledd aelodau dros dymor gwyliau'r haf yn her anorchfygol.

41. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyntaf yr is-grwpiau ym mis Medi 2023. Yr eithriad oedd yr is-grŵp Dylunio a Gwerthuso Cynllun Peilot, ar ôl i'r Gweithgor benderfynu na ddylai'r is-grŵp hwn gyfarfod oni bai fod penderfyniad cadarn wedi'i wneud i fwrw ymlaen â chynllun peilot.

42. Roedd cyfarfodydd cychwynnol yr is-grwpiau yn canolbwyntio ar ymgyfarwyddo'r aelodau hynny o'r tu allan i'r Gweithgor â natur y dasg. Bu'r cyfarfodydd cychwynnol hefyd yn trafod ac yn mireinio'r Cylch Gorchwyl ar gyfer pob is-grŵp.

43. Fe wnaeth bob is-grŵp ddelio â'i waith yn y ffordd a oedd yn gweddu orau iddynt hwy – gyda rhai'n cyfarfod yn amlach ac yn fwy rheolaidd nag eraill. Roedd achos hefyd lle cyfarfu dau is-grŵp ar y cyd, gyda'r 'Cymhlethdodau i Weithwyr' a'r is-grwpiau 'Cymhlethdodau i Gyflogwyr a Darparu Gwasanaethau' yn cynnal gweithdy hanner diwrnod ar y cyd ar Ionawr 11, 2024.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

44. Cyfarfu Cadeiryddion yr is-grwpiau ar wahân o bryd i'w gilydd i bwysu a mesur y gwaith ar draws yr is-grwpiau, i bennu camau gweithredu, ac i gadw llinellau cyfathrebu ar agor er mwyn lleihau'r risg o ddyblygu neu hepgor. Roedd gwaith yr is-grwpiau, ynghyd â thrafodaethau'r Gweithgor, yn sail i gasgliadau ac argymhellion yr Adroddiad hwn.

Casgliadau ac argymhellion

45. Mae'r daith a gymerwyd gan y Gweithgor (a'i is-grwpiau) dros yr 11 mis diwethaf wedi bod yn daith ddysgu. Drwy'r dystiolaeth a gafwyd gan ymarferwyr, academyddion a Llywodraeth yr Alban, mae'r Gweithgor wedi darganfod ac archwilio haenau o gymhlethdod a chanlyniadau buddiol nad ydynt bob amser yn amlwg ar lefel yr wyneb.

46. Er bod amrywiaeth barn yn y Gweithgor, roedd y gwahaniaethau'n bennaf ar bwyntiau o bwyslais, yn hytrach nag ar bwyntiau o egwyddor. Er enghraifft, nid oedd unrhyw aelod o'r Gweithgor yn gwrthwynebu cysyniad yr wythnos waith 4 diwrnod mewn egwyddor. Fodd bynnag, roedd amrywiaeth o safbwyntiau o hyd ynghylch sut a phryd y gellid gweithredu wythnos waith 4 diwrnod a'r amgylchiadau a fyddai'n ofynnol er mwyn i hyn ddigwydd yn effeithiol.

47. Daeth y sefyllfa cyllid cyhoeddus heriol yn nodwedd gynyddol o drafodaethau. Roedd hyn o ran yr effaith ar led band sefydliadau i ystyried treialu wythnos waith 4 diwrnod ac i edrych ar faterion sy'n ymwneud ag ail-ddylunio swyddi a'r llwyth gwaith gan fod llai o oriau ar gael, ond hefyd pryderon ynglŷn â'r canfyddiad o sut y byddai symudiadau o'r fath yn gweithio gyda'r cyhoedd yn gyffredinol ar hyn o bryd.

48. Yn ei drafodaethau ysgogol, roedd y Gweithgor yn gallu rhannu'r safbwyntiau gwahanol hyn, herio tybiaethau, a ffurfio consensws eang ar ei gasgliadau a'i argymhellion. Wrth wneud hynny, cyflawnodd y Gweithgor ei

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

amcan i ystyried yr wythnos waith 4 diwrnod drwy lens partneriaeth gymdeithasol a rhoi ystyriaeth wrthrychol, gadarn a difrifol i'r mater.

49. Daeth y Gweithgor i'r casgliadau canolog canlynol:

(i) Nid yw'r Gweithgor yn cytuno â'r rhai sy'n dadlau mai cysyniad delfrydol ond anaddas yn sylfaenol yw'r wythnos waith 4 diwrnod, ac na ellir byth ei weithredu ar raddfa fawr. Fodd bynnag, mae'r Gweithgor hefyd yn rhybuddio yn erbyn y farn gwbl groes, sy'n awgrymu mai'r ewylllys i ddarparu'r wythnos waith 4 diwrnod ar gyflymder a graddfa yw'r cyfan sydd ei angen. Nid yw'r naill safbwynt na'r llall yn llwyddo i daflu goleuni ar gymhlethdod y materion na natur y dulliau gweithredu posibl. Mae'r Gweithgor yn credu bod fframio deuaidd o'r ddadl rhwng y rhai sy'n hybu a'r rhai sy'n gwrthwynebu wythnos waith 4 diwrnod yn ddiangen ac yn rhy syml.

(ii) Mae'r Gweithgor yn credu bod yr wythnos waith 4 diwrnod yn ffordd flaengar ac arloesol o weithio, sy'n haeddu ystyriaeth bellach gan gyflogwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig a'u hundebau llafur cydnabyddedig. Mae'r Gweithgor o'r farn bod manteision clir i wythnos waith 4 diwrnod (gan dybio ei bod yn ganlyniad ymgynghori a negodi rhwng cyflogwyr a gweithwyr).

(iii) Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Gweithgor a'i drafodaethau, mae'r Gweithgor yn pennu'r manteision i wythnos waith 4 diwrnod, gan gynnwys:

- Cydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith: Mae oriau contract byrrach, heb leihau cyflog, yn newid yn ffafriol y cydbwysedd rhwng cyfran yr amser y mae gweithwyr yn ei dreulio yn y gwaith, gan alluogi gweithwyr i gydbwysu eu cyfrifoldebau yn y gwaith â'u bywyd y tu allan i'r gwaith.
- Llai o risg y bydd gweithwyr yn gorflino ac felly iechyd corfforol a meddyliol gwell: Mae oriau gwaith byrrach yn helpu i atal gorflino ac yn rhoi mwy o amser i weithwyr orffwys a gwella, gyda llai o flinder a lefelau is o straen.
- Recriwtio gwell, cadw staff a sicrhau boddhad mewn swydd: Mae mabwysiadu wythnos waith 4 diwrnod yn darparu ar gyfer cynnig unigryw

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

sy'n gosod y cyflogwr ar wahân i eraill. Mae hefyd yn rhoi cynnydd effeithiol i weithwyr yn y gyfradd tâl fesul awr (gan eu bod yn gweithio llai o oriau heb leihau cyflog). Nodwyd yng nghyfarfodydd y Gweithgor sut roedd cyflogwyr wedi defnyddio'r ddau ffactor hyn i helpu i recriwtio a chadw gweithwyr.

- Mwy o gynwysoldeb: Roedd y Gweithgor o'r farn y gallai gostyngiad sylweddol yn oriau arferol y contract gael effaith drawsnewidiol ar y gweithlu, gan arwain at fwy o gynhwysiant i weithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu yn benodol.
- Gwell cynhyrchiant a pherfformiad sefydliadol: Clywodd y Gweithgor sut roedd y manteision uchod wedi cyfrannu at lefelau gwell o gynhyrchiant a gostyngiadau mewn absenoldebau salwch. Roedd y Gweithgor yn cydnabod y gydberthynas rhwng llesiant a chynhyrchiant, gan gydnabod bod gweithwyr sydd wedi cael digon o orffwys, sy'n hapus ac sydd â lefelau uchel o foddhad yn eu swydd yn debygol o fod yn fwy effeithiol yn eu rolau.

(iv) Mae'r Gweithgor yn cydnabod bod risgiau posibl i gyflogwyr, i ddarparu gwasanaethau ac i weithwyr. Fodd bynnag, mae'r Gweithgor yn mynegi eu bod yn hyderus y gellir rheoli a lliniaru'r risgiau hynny, os caiff Wythnos Waith 4 Diwrnod ei chynllunio'n briodol, ac os caiff ei chynllunio a'i gweithredu drwy ymgynghori'n llawn â gweithwyr a'u cynrychiolwyr undeb llafur.

(v) Mae'r Gweithgor yn ystyried bod y risgiau i'w rheoli a'u lliniaru yn cynnwys y canlynol:

- Risgiau cydraddoldeb: Y risg o ehangu'r anghydraddoldebau presennol rhwng grwpiau o weithwyr, hynny yw gweithwyr swyddfa o'u cymharu â'r rheini sydd ar y rheng flaen, yn enwedig mewn gweithrediadau 24/7. O ystyried gwahanol nodweddion rhywedd, hil a nodweddion eraill gwahanol weithluoedd yn y sector cyhoeddus, mae potensial am effeithiau negyddol a gwahaniaethol ar nodweddion gwarchoddedig penodol. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd hawliau gweithwyr i fudd-daliadau lles hefyd yn cael eu rhoi mewn perygl.
- Risgiau ariannol: Y risg y gallai fod angen i gyflogwyr dalu costau recriwtio

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

gweithwyr ychwanegol os oes angen y rhain i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau ar ôl lleihau oriau gwaith. Er enghraifft, dywedodd un aelod o'r Gweithgor y byddai gweithredu wythnos waith 4 diwrnod yn eu sefydliad nhw'n golygu y byddai angen recriwtio 179 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ychwanegol er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau.

- Oriau heb eu datgan a risgiau'n ymwneud â dwysedd gwaith: Y risg o gynnydd mewn oriau gwaith heb eu datgan, wrth i weithwyr geisio gosod yr un llwyth gwaith mewn nifer llai o oriau gwaith. Neu, mae'r risg o gynnydd mewn dwysedd gwaith, wrth i weithwyr wasgu'r un llwyth gwaith i nifer llai o oriau.
- Risgiau datblygu'r gweithlu: Y potensial i'r amser a neilltuwyd ar gyfer dysgu a datblygu gael ei wasgu gan gyfuniad o bwysau'n ymwneud â llwyth gwaith a llai o amser gweithio.
- Risgiau o ran darparu gwasanaethau: Y pryder eang ynghylch sut y gellid cynnal gwasanaethau 24/7 wrth leihau oriau gwaith a pheidio â chynyddu nifer y staff, ynghyd â'r tensiwn posibl rhwng canolbwyntio ar arbed amser er mwyn cyflawni'r gwaith a gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar bobl lle mae ansawdd y gwasanaeth yn aml yn dibynnu ar yr amser llafur a neilltuwyd. Er enghraifft, bu'r Gweithgor yn meddwl am yr arfer o 'wasgu ymweliadau' mewn gofal cymdeithasol, lle mae gan weithwyr gofal cartref ormod o ymweliadau i'w gwneud mewn un diwrnod, sy'n golygu nad yw cleientiaid yn cael y gofal o ansawdd y mae ganddynt hawl iddo.
- Risgiau personol: Y posibilrwydd o gostau personol 'cudd' am oriau gwaith byrrach, fel gwresogi cartref yn ystod oriau a fyddai fel arall wedi cael eu treulio yn y gwaith neu gostau gwneud gweithgareddau hamdden yn ystod yr amser rhydd ychwanegol. Yn fwy difrifol, roedd yn cydnabod y gall y gweithle fod yn lloches ac yn seibiant i rai gweithwyr am wahanol resymau.
- Risgiau rheoli tîm: Mwy o risiau o ran rheoli timau sy'n gweithio amserlenni shifft fwy cymhleth i gynnal y ddarpariaeth. Gall cynnal cyfathrebu ac ymgysylltu fod yn fwy heriol ac efallai y bydd rhai gweithwyr hyd yn oed yn teimlo dan bwysau i gadw mewn cysylltiad pan nad ydynt yn y gwaith.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

(vi) Mae'r Gweithgor o'r farn y dylid osgoi cynllun peilot o'r brig i lawr sy'n cael ei orfodi ar gyflogwyr a gweithwyr. Er mwyn gwireddu'r buddion yn effeithiol ac er mwyn rheoli risgiau gweithredu, mae'n hanfodol bod unrhyw gynllun peilot yn cynnwys cyflogwyr parod a bod y cyflogwyr hynny wedi ymrwymo i weithio gyda gweithwyr ac undebau llafur, gan eu cynnwys yn llawn yn y gwaith o gynllunio, gweithredu a gwerthuso unrhyw gynllun peilot.

(vii) Mae'r Gweithgor yn cydnabod bod unrhyw gynllun peilot yn annhebygol o gynnwys pob gweithlu sector cyhoeddus datganoledig a phob gweithiwr yn y gweithluoedd hynny. Yn anochel, byddai rhai carfanau o weithwyr a chyflogwyr yn cael eu cynnwys, ond ni fyddai eraill yn cael eu cynnwys. Fodd bynnag, mae'r Gweithgor yn rhybuddio yn erbyn dull gweithredu a fyddai'n creu rhwyg clir rhwng 'y rhai sy'n cael gweithio'r wythnos 4 diwrnod' a'r 'rhaid sydd ddim yn cael gweithio'r wythnos waith 4 diwrnod', gyda gweithwyr rheng flaen, er enghraifft, yn enwedig y rhai hynny sydd mewn swyddi shifft a swyddi sy'n delio â'r cyhoedd, yn cael eu gwahardd yn barhaol.

(viii) Mae'r Gweithgor yn amheus ynghylch pa mor ddefnyddiol yw cynllun peilot diogel, hynny yw cynllun peilot sydd ond wedi'i dargedu at swyddogaethau sy'n hawdd eu haddasu ar gyfer wythnos waith 4 diwrnod. Er y gallai dull o'r fath gynnig ffordd hawdd, heb llawer o risgiau, o ddarparu cynllun peilot, mae'r Gweithgor yn teimlo na fydd yn darparu llawer o dystiolaeth yn y pen draw o'r gallu i dyfu i amgylcheddau gwaith ehangach. Yn ychwanegol, mae perygl y gallai dull o'r fath beri rhwyg.

50. Mae'r Gweithgor yn gwneud yr argymhellion canlynol ar sail y casgliadau uchod:

Argymhelliad 1

Dylai cyflogwyr yn y sector cyhoeddus, undebau llafur a Llywodraeth Cymru, drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu, ddyblu eu hymdrechion i ganfod sefydliad

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

neu sefydliadau sy'n barod i dreialu'r Wythnos Waith 4 Diwrnod.

Argymhelliad 2

Os bydd unrhyw gynllun peilot o'r wythnos waith 4 diwrnod yn cael ei roi ar waith mewn gwasanaeth cyhoeddus datganoledig, dylid ystyried yr wyth egwyddor ganlynol:

- I. Ni ddylid gorfodi cynllun(iau) peilot a rhaid iddynt fod yn ganlyniad cyflogwr neu gyflogwyr parod a'u gweithluoedd.
- II. Rhaid i'r cynllun(iau) peilot fod yn ganlyniad ymgynghori a negodi rhwng y cyflogwr/cyflogwyr perthnasol, gweithwyr a'u hundeb(au) llafur, wedi'u dylunio, eu gweithredu a'u gwerthuso mewn partneriaeth gymdeithasol lawn.
- III. Ni ddylai cynllun(iau) peilot roi telerau ac amodau gweithwyr a/neu eu hawliau lles mewn perygl.
- IV. Rhaid i'r cynllun(iau) peilot ganiatáu ar gyfer y graddau mwyaf posibl o sybsidiaredd ac amrywiad o ran dyluniad, gweithrediad ac amserlen y cynllun peilot, gan adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau lleol.
- V. Rhaid i'r cynllun(iau) peilot nodi'r canlyniadau a fwriadwyd yn glir a disgwyliadau'r cyflogwr a'r gweithwyr y cytunwyd arnynt ar y cyd.
- VI. Rhaid i degwch a chyfiawnder fod yn sail i'r cynllun(iau) peilot ac ni ddylent wreiddio anghydraddoldebau presennol na dod yn ffynhonnell newydd o rwyg.
- VII. Rhaid i gynllun(iau) peilot beidio â mandadu na gwneud rhagdybiaethau ynghylch sut y dylai gweithwyr dreulio oriau rhydd newydd nad ydynt yn rhai gwaith.
- VIII. Ni ddylai'r cynllun(iau) peilot gael eu cynnal heb ddigon o amser paratoi – mae hyn yn angenrheidiol er mwyn galluogi cyflogwyr a gweithwyr i baratoi eu hunain, ac ar gyfer cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Argymhelliad 3

Ystyried manteision a chostau cynnwys arbenigedd allanol yn y gwaith o ddylunio a gwerthuso unrhyw gynllun peilot wythnos waith 4 diwrnod yn y dyfodol.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru a Phartneriaid Cymdeithasol nodi diffiniad y Gweithgor hwn bod “wythnos waith 4 diwrnod yn golygu peidio â lleihau cyflog na cholli buddion, ynghyd â gostyngiad o 20% i oriau cytundebol arferol, wrth gynnal y lefelau presennol o ddarparu gwasanaethau”, gan hefyd gydnabod y gall sefydliadau amrywio'r diffiniad hwnnw mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw.

Argymhelliad 5

Dylid ystyried defnyddio'r term 'wythnos waith fyrrach' neu 'ddiwrnod gwaith byrrach' yn hytrach nag 'wythnos waith 4 diwrnod'. Mae'r olaf yn cael ei ddefnyddio'n eang gan ffynonellau gwleidyddol a'r cyfryngau, ond efallai na fydd yn helpu dealltwriaeth y cyhoedd. Mae'n aml yn cael ei gamddechongli'n eang ac yn cael ei gymryd yn ei ystyr llythrennol i olygu cau ar un o 5 diwrnod yr wythnos waith draddodiadol, sydd o bosibl yn gallu arwain at bryderon anghywir ynglŷn â mynediad at wasanaethau a'r ddarpariaeth o wasanaethau.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Atodiad 1: Cylch gorchwyl

1. Cefndir

1.1 Mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn strwythur partneriaeth gymdeithasol deirochrog sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, undebau llafur a chyflogwyr ar draws y gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

1.2 Mae'r Gweithgor hwn ar yr wythnos waith 4 diwrnod wedi'i sefydlu yn dilyn trafodaeth a chytundeb yng Nghyd-bwyllgor Gweithredol Cyngor Partneriaeth y Gweithlu (27 Ionawr) ac yng nghyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gweithlu (29 Mawrth). Mae'r Cyd-bwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am gyflawni rhaglen waith Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ac mae wedi sefydlu'r gweithgor hwn i ddod ag arbenigedd perthnasol ynghyd.

1.3 Yn gyffredinol, mae wythnos waith 4 diwrnod yn golygu wythnos 32 awr heb gollu unrhyw gyflog na buddion. Mae galwadau wedi bod am gynllun peilot o'r wythnos waith 4 diwrnod yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Mae'r rhain wedi cynnwys y canlynol:

- Adroddiad Pwyllgor Deisebau'r Senedd ar ôl casglu tystiolaeth (**O Bump i Bedwar?** **P-06-1247 Cefnogi treialon wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru** - [senedd.cymru](https://www.senedd.cymru)).
- Gwaith a gomisiynwyd ac a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (**Dyfodol Addas i Gymru Map trywydd wythnos waith fyrrach**).
- Dadl y **Senedd yn y Cyfarfod Llawn**.

1.4 Mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu wedi penderfynu bod yr wythnos waith 4 diwrnod yn arwain at ystod o ystyriaethau y mae'n rhaid eu harchwilio mewn partneriaeth gymdeithasol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

2. Pwrpas a chylch gwaith

2.1 Sefydlir y Gweithgor hwn ar sail Gorchwyl a Gorffen. Bydd yn darparu ei adroddiad terfynol a'i argymhelliad i gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ym mis Tachwedd 2023.

2.2 Bydd y Gweithgor yn gwneud y canlynol:

- Ystyried cryfder y sail resymegol a'r sylfaen dystiolaeth sylfaenol ar gyfer cynllun peilot wythnos waith 4 diwrnod yn y sector cyhoeddus datganoledig.
- Diffinio ei ddealltwriaeth o wythnos waith 4 diwrnod.
- Gwerthuso'r cyfleoedd, y risgiau a'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â chynllun peilot wythnos waith 4 diwrnod, gan gynnwys canlyniadau anfwriadol posibl a'r effaith ar ddarparu gwasanaethau, cynhyrchiant, dwysedd gwaith ac adnoddau.
- Asesu a yw'r wythnos waith 4 diwrnod yn mynd rhagddi orau drwy drafodaethau ar lefel leol (hynny yw trafodaethau unigol â chyflogwyr a'r gweithlu) yn hytrach na thrwy gynllun peilot cenedlaethol.
- Gwneud argymhellion ar ba mor ymarferol, addas a derbyniol yw cynllun peilot wythnos waith 4 diwrnod mewn gwasanaeth cyhoeddus datganoledig neu wasanaethau yng Nghymru.

2.3 Wrth wneud ei waith, bydd y Gweithgor yn ymwybodol y byddai angen cyflawni unrhyw gynllun peilot o fewn yr adnoddau ariannol a staffio presennol.

2.4 Os bydd cynllun peilot yn cael ei argymhell, bydd y Gweithgor yn ystyried y canlynol:

- Graddfa ac amserlen unrhyw gynllun peilot.
- Pa garfannau o gyflogwyr a gweithluoedd fyddai'n cymryd rhan?
- Mae'r goblygiadau o ran tegwch ac ecwiti a diogelu yn erbyn y cynllun peilot yn ffynhonnell arall o anghydraddoldeb, anghyfiawnder a rhwyg.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

- Sut byddai'r cynllun peilot yn cael ei werthuso – gan gynnwys yr effaith ar weithluoedd a darparu gwasanaethau.

3. Aelodaeth a Chadeirydd

3.1 Mae aelodaeth y Gweithgor wedi'i nodi yn Atodiad A ac mae'n seiliedig ar enwebiadau a ddarparwyd gan aelodau Cyngor Partneriaeth y Gweithlu.

3.2 Rhaid i o leiaf chwe aelod, yn cynnwys dau o Lywodraeth Cymru, dau o gyflogwyr a dau o undebau llafur, fod yn bresennol yn y cyfarfodydd er mwyn iddynt gael eu hystyried yn rhai â chworwm.

3.3 Efallai y bydd y Gweithgor yn cytuno i wahodd mewnbwn ychwanegol gan bobl eraill nad ydynt yn aelodau, er mwyn cynorthwyo neu ychwanegu at drafodaethau'r Grŵp. Ni fyddai'r rheini sy'n darparu mewnbwn ychwanegol o'r fath yn cael eu hystyried yn aelodau o'r Grŵp.

3.4 Bydd y Gweithgor yn cael ei gadeirio gan Reg Kilpatrick (Judith Cole fydd yr eilydd). Gofynnir am Ddirprwy Gadeirydd o blith aelodau'r Gweithgor nad ydynt yn aelodau o Lywodraeth Cymru.

3.5 Mae disgwyl i aelodau'r Gweithgor gael yr awdurdod dynodedig i adlewyrchu a chyfleu safbwyntiau a barn y grŵp cyfansoddol y maent yn ei gynrychioli mewn perthynas â'r gwaith hwn.

4. Amllder a'r dulliau o gyfarfod

4.1 Bydd y Gweithgor yn cwrdd o leiaf bum gwaith yn fisol, ac eithrio egwyl yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst, pan fydd argaeledd yr aelodau'n debygol o fod yn gyfyngedig.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

4.2 Cynigir bod y Gweithgor yn cyfarfod ym mis Ebrill, mis Mai, mis Mehefin, mis Medi a mis Hydref, cyn iddo gyflwyno ei adroddiad a'i argymhellion i gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ym mis Tachwedd. Fodd bynnag, gall y Gweithgor gytuno i gyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.

4.3 Bydd gwaith yn cael ei wneud y tu allan i gyfarfodydd gan aelodau a chyda nhw yn ôl yr angen, er mwyn cynnal cynnydd a sicrhau'r gwerth gorau o gyfarfodydd.

4.4 Bydd pob cyfarfod yn cael ei gynnal mewn fformat hygyrch ac fel arfer, bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein. Fodd bynnag, os bydd y Gweithgor yn dymuno cwrdd wyneb yn wyneb, gwneir trefniadau i sicrhau bod cyfarfodydd o'r fath yn cael eu cynnal mewn fformat hybrid sy'n caniatáu i aelodau ymuno ar-lein os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

4.5 Yn unol â'r ffordd o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, bydd yr egwyddor o sicrhau consensws cyffredinol ymysg aelodau'r Gweithgor yn cael ei mabwysiadu.

5. Ysgrifenyddiaeth

5.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu ysgrifenyddiaeth i'r Gweithgor o'r Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn trefnu cyfarfodydd, yn dosbarthu papurau ac yn darparu cofnod o drafodaethau ac unrhyw gamau gweithredu. Caiff papurau eu dosbarthu o leiaf 7 diwrnod gwaith cyn unrhyw gyfarfod o dan unrhyw amgylchiadau oni bai am y rhai mwyaf eithriadol.

6. Trefniadau llywodraethu

6.1 Bydd y Gweithgor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyd-bwyllgor

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Gweithredol am gynnydd ac yn darparu drafft o'i adroddiad a'i argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Gweithredol i'w ystyried. Os caiff ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Gweithredol, bydd yr adroddiad a'r argymhellion yn cael eu rhoi i Gyngor Partneriaeth y Gweithlu i'w cymeradwyo'n ffurfiol. Os na chaiff yr adroddiad ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Gweithredol, dylid rhoi gwybod i Gyngor Partneriaeth y Gweithlu am y rheswm dros hyn.

6.2 Mae'r cylch gorchwyl hwn yn dod i rym yn syth ar ôl i'r Gweithgor gytuno arno. Gellir diwygio, amrywio neu addasu'r cylch gorchwyl yn ysgrifenedig gyda chytundeb y Gweithgor.

7. Gwrthdaro rhwng buddiannau, cyfryngau

7.1 Bydd rhaid i unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau gael ei ddatgan ar ddechrau pob cyfarfod. Mater i'r grŵp fydd penderfynu a yw datganiadau o'r fath yn atal aelod rhag cyfranogi ymhellach yng ngwaith y grŵp.

7.2 Gall dogfennau fod yn destun ceisiadau mynediad at wybodaeth a wneir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os derbynnir ceisiadau o'r fath, dilynir gweithdrefnau Rhyddid Gwybodaeth safonol Llywodraeth Cymru.

7.3 Rhaid i aelodau'r Cyd-bwyllgor Gweithredol gytuno ar unrhyw gyfathrebu â'r cyfryngau neu â thrydydd partïon ynghylch gwaith y grŵp.

Atodiad 2: Summary of evidence generated with the aid of MS Co-Pilot

(The longer form published reports and articles from which this summary is drawn were provided to the Working Group).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Summary

The 4-day work week (4DWW) is an alternative working arrangement that reduces the weekly working hours of employees from 5 to 4 days, without affecting their salaries or benefits. The 4DWW has been proposed to improve the well-being, productivity, and sustainability of workers and organisations, as well as to address the social and environmental challenges of the 21st century.

However, the empirical evidence on the effects and implications of the 4DWW is still scarce and fragmented. This paper summarises and analyses recent research and evaluation reports from different countries and sectors that have experimented with the 4DWW, to provide a comprehensive overview of the current state of knowledge and practice on this topic. The paper covers evidence from Portugal, South Africa, Iceland, South Cambridgeshire District Council, and New Zealand (Perpetual Guardian), as well as additional evidence from a Senedd Petitions Committee and [Autonomy](#).

Overall, these pilots, as well as the Autonomy report on AI and shorter working hours, concluded that a shorter work week (e.g. the 4DWW) has positive impacts on both workers and businesses. The studies found improvements in workers' mental health, work-life balance, productivity, and satisfaction, as well as benefits for businesses such as increased revenue and reduced absenteeism and resignation rates.

However, there were also challenges, including pushback on the ability to complete existing volumes of work within a shorter timeframe, lack of viability across some sectors (especially for low-paid, low-security jobs, or vital services such as the health sector), and working against an established culture and pattern of a 5-day working week. Alternative models, such as a shorter working day, might be more deliverable and realistic. The role of the trades unions is seen as crucial important to securing equitable conditions for workers in different industries – particularly where employers have little incentive to improve working

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/yr-wythnos-waith-4-diwrnod-gwybodaeth-gan-bartneriaeth-gymdeithasol.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

conditions.

NB. 4 Day Week Global is involved in several of these pilots (highlighted). There may be inherent biases as a result. That said, they will also have learned a lot of these lessons of what's working/not working.

Evidence

Portugal: 4-day week pilot project

The Portuguese pilot project on the 4-day week

